

MORGAN, JENKIN (bu farw 1762), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Jenkin Morgan
Dyddiad marw: 1762
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ni wyddys pa bryd nac ymhle y ganed ef; barnai **Thomas Rees**, 'ar seiliau lled gedyrn,' mai yn ardal Caerffili; credai **Richard Bennett** (*Blynyddoedd Cyntaf Methodistiaeth*, 194-5) mai brodor o Gwm Nedd ydoedd, gan chwanegu iddo fod yn aelod ym Mlaengwrach dan **Henry Davies** - noder, fodd bynnag, nad yw ei enw yn y rhestr o aelodau'r eglwys honno yn 1734 a argraffodd **J. Rufus Williams** o lawysgrif **Henry Davies**, a hefyd mai yn Watford yr urddwyd ef. Sut bynnag, yr oedd yn un o ysgolfeistri **Griffith Jones** o Landdowror. Ym mis Chwefror 1739 (yn ôl llythyr gan **Lewis Rees** a argraffwyd gan **Richard Bennett** yn *Meth. Trefaldwyn Uchaf*, 14-6), yr oedd yn cadw ysgolion cylchynol yn Llanbryn-mair, Llandinam, a Llanwyddelan (enwir yr ysgolion hyn yn *Welch Piety*, ond heb enwi'r athro); cymerwyd ef i'r ddalfa ym Mochdre, a rhwymwyd ef (**Bennett**, op. cit., 16-7) i ymddangos o flaen y sesiwn chwarter. Cyn diwedd 1739 yr oedd yn cadw ysgol yn Nantydeiliau, Llanuwchllyn. Erbyn 1740 cawn ef yn cadw ysgol gylchynol yng nghegin **William Prichard** yn y Glasfryn Fawr yn Sir Gaernarfon. Ar ymweliad â'r Bala yn Ionawr 1741 (daeth yno i hebrwng **Howel Harris** i Sir Gaernarfon), bu bron iddo gael ei lusgo i'r llyn gan dorf o erlidwyr. Edrydd **Harris** (dyddlyfr Chwefror 1741) nad oedd Morgan yn dda ei fyd yn y Glasfryn, ond cynghorodd ef i aros yno; yn yr ardal honno y cafodd ei wraig, un o ferched y Tyddyn Mawr, Tudweiliog - y tŷ y bu **Evan Williams** o Gwmllynfell yn ymguddio mewn cist ynddo rhag erlidwyr. Yn Chwefror 1742, cymerwyd Jenkin Morgan a **Richard Tibbott** i fyny fel 'vagabonds,' a'u hanfon yn ôl i'w cynefin gan eu cadw am noson yng ngharchar pob tre sir ar eu ffordd (*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calffaidd*, iv, 13-4; i, 25). Ond dychwelodd Morgan i'r Gogledd, a chan fod **William Prichard** wedi gorfod symud i Fôn, aeth yntau yno. Erbyn hynny, yr oedd y cydweithrediad bore rhwng Annibynwyr a Methodistiaid yng Ngwynedd (fel mewn manau eraill) wedi pailu rhyw gymaint. Ffurfiwyd eglwys Annibynnol yn 1744 yn nhŷ 'yeoman' o'r enw John Owen, Caeau Môn, ym mhlwyf Cerrig-Ceinwen. Urddwyd ef yn weinidog arni, yn Watford, Mehefin 1746 - yr oedd **Thomas Morgan** (1720 - 1799) yno, a **Lewis Rees** ac **Edmund Jones** yn pregethu. Cafodd grantiau gan y Bwrdd Presbyteriaidd o 1747 hyd 1751, a chan y Bwrdd Cynulleidfaol o 1747 hyd 1762. Enwir ef (1747-50) yn nyddlyfrau John Wesley - bu'n cyfieithu i Wesley. Yn fuan wedi 1745, prynodd dyddyn o'r enw Ty'nryaethnen yng Ngherrig-Ceinwen, a chadwai ysgol yno; ar ddarn o'r tir cododd yn 1748 gapel Rhos-y-meirch, ac y mae cyfeiriadau at ei deithiau i'r Deheudir i gasglu at y capel. Ar 16 Chwefror 1762, ac yntau ar y pryd yn byw yn un o'r ddwy Drehwfa yn yr un plwyf, gwerthodd y tir y safai'r capel arno i'r eglwys - awgryma hyn, efallai, ryw ymdeimlad fod ei ddiwedd yn agos. Bu farw, meddai Thomas Morgan (*Y Cofiadur*, 1923, 15), yn 1762; ar 7 Mehefin 1762 yr ymddengys ei enw am y tro olaf yng nghofnodion y Bwrdd Cynulleidfaol. Credai **Thomas Rees** (ni ddywed ar ba sail) ei fod tua 45-7 mlwydd oed pan fu farw.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Trysorfa Ysprydol yn cynnwys amrywiaeth o bethau ar amcan crefyddol, yn athrawiaethol, yn annogaethol, yn hanesiol, &c., ynghyd ag ychydig farddoniaeth, 1813

Robert Jones (Rhoslan), *Drych yr Amseroedd* (Trefriw 1820)

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, ii, 457-9

E. B. Jones, yn *Llawlyfr Undeb yr Annibynwyr yn Llangedfni* (1923), 1923 (cofnodion gwerthfawr)

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937) (mynegai), a'r cyfeiriadau eraill a roddwyd uchod

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733343

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government